# HYSBYSIAD O GYNNIG

## GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (WEPRE LANE, CEI CONNAH) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 26) 202-

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Adran 82 (2) (a) a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Rhan IV Atodlen 9 y Ddeddf, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a heb Gyfyngiad) 2023, i gyflwyno:

a) Terfyn cyflymder o 30mya ar:

**Wepre Lane:** o bwynt 115 metr i’r de-orllewin o’r gyffordd â Maes Uchaf at bwynt 32 metr i’r de-orllewin o’r gyffordd â Mountain View Close.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig, os caiff ei wneud yn diddymu Cyngor Sir y Fflint (Wepre Lane, Cei Connah) (Terfyn Cyflynder 30mya) (Gorchmyn) 2019 yn ei gyfanrwydd a bydd yn cael ei gydgrynhoi yng Ngorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a Therfynau Cyflymder Cenedlaethol Ffyrdd Cyfyngedig a Heb eu Cyfyngu) 2023.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a’r Terfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Heb Gyfyngiad) 2023 yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o’r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, ynghyd ag Mapiau yn dangos y darnau o ffyrdd y mae’r cynnig yn effeithio arnynt a datganiad o resymau’r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive, Cei Connah CH5 4HA. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar ein gwefan ar www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i’r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â’r rhesymau dros eu gwneud, yn ysgrifenedig at yr unigolyn yn y cyfeiriad isod neu trwy e-bostio transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk (gan ddyfynnu’r cyfeirnod SS/JB/WL/30mph/26) erbyn dydd Gwener 20 Chwefror 2026.

Dyddiedig Dydd Gwener 30 Ionawr 2026

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
yr Wyddgrug
CH7 6LG.

**DYDDIEDIG XX XXXX 202-**

---

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
# WEPRE LANE, CEI CONNAH
# (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD)
# (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (GWELLIANT 26) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X

---

**Katie Wilby**
**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**
**Cyngor Sir y Fflint**
**Depo Alltami,**
**Ffordd yr Wyddgrug,**
**Alltami,**
**Yr Wyddgrug.**
**CH7 6LG**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**WEPRE LANE, CEI CONNAH**
**(FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (GWELLIANT 26) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i rymoedd dan Adran 82 (2) (a) a 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob grym arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar xx xx 202- a gellir cyfeirio ato fel (GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT WEPRE LANE, CEI CONNAH. (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 26) 202-

**Darpariaethau Cyffredinol**

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Ni fydd y darnau o ffyrdd a nodir yn Atodlen y Gorchymyn hwn bellach yn Ffyrdd Cyfyngedig at ddibenion Adran 81 Ddeddf 1984.

5. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Mae Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Wepre Lane, Cei Connah) (Terfyn Cyflymder 30mya) Gorchymyn 2019, wedi’i ddirymu yn ei gyfanrwydd ac mae wedi cael ei gydgrynhoi i mewn i’r Gorchymyn hwn.

7. Mewn grym o’r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, bydd Atodlen Map K15 a L15 Rhif Taflen Ddiwygiedig: 2 sydd wedi ei chynnwys yn y Gorchymyn hwn, yn disodli Atodlen Map K15 a L15, Rhif Taflen Ddiwygiedig 1, yng Ngorchymyn (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a’r terfynau cyflymder cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Ffyrdd Heb Gyfyngiad) Cyngor Sir y Fflint 2023, mewn perthynas â’r ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**ATODLEN**
**30 MYA**
**Brychdyn**

| **Enw’r Ffordd** | **Atodlen Map** | **Taflen i’w diwygio** |
|---|---|---|
| Wepre Lane | K15<br>L15 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023)<br>2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2023) |

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
y XX diwrnod o XXXXXXX 202- )
ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

**UWCH GYFREITHIWR**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (WEPRE LANE, CEI CONNAH) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 20) 202-**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN**

Cynigir cyflwyno terfyn cyflymder 30mya ar Wepre Lane, Cei Connah.

Ym mis Mai 2024, yn dilyn penodiad y Gweinidog Cludiant newydd, Ken Skates, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen wrando a'u gwelodd yn ymrwymo i gydweithio ag awdurdodau lleol i baratoi'r tir ar gyfer newidiadau, gan adolygu'r canllawiau ar ba ffyrdd lleol allai gael eu heithrio rhag y terfyn cyflymder 20mya diofyn a gyflwynwyd ar ffyrdd cyfyngedig ar 17 Medi 2023.

Yn dilyn cyhoeddiad Ken Skates, anogwyd trigolion Cymru i gyflwyno sylwadau i'w hawdurdodau lleol yn dweud pa ffyrdd, yn eu barn nhw, ddylai ddychwelyd i derfyn cyflymder o 30mya. Daeth dros 1,000 o geisiadau unigol i law'r Awdurdod yn dilyn lansio Rhaglen Wrando Llywodraeth Cymru. Mae pob cais a ddaeth i law wedi cael eu hasesu gan ystyried meini prawf Llywodraeth Cymru, 'Gosod terfynau cyflymder o 30mya ar ffyrdd cyfyngedig: canllawiau i awdurdodau priffyrdd'.

Wrth bennu a ddylid codi terfyn cyflymder i 30mya ai peidio ar y ffyrdd uchod, mae'r Awdurdod wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol, gan gynnwys ei ddyletswydd o dan adran 16 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 2004 i geisio sicrhau bod y traffig yn symud mor hwylus ag sy'n ymarferol bosibl, a'i ddyletswydd o dan adran 122 Deddf Rheoli Traffig 1984 i geisio sicrhau bod cerbydau a thraffig eraill yn symud yn hwylus, yn gyfleus ac yn ddiogel, yn cynnwys cerddwyr, cyn belled ag sy'n ymarferol gan ystyried y materion a manylir yn adran 122(2). Mae wedi ystyried meini prawf amrywiol, yn cynnwys cyflymder, symudiad a nodweddion ffyrdd fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, ynghyd ag unrhyw amodau lleol ychwanegol sy'n cael eu hystyried yn berthnasol.

Yn benodol, fe nodwyd y canlynol yn yr asesiad.

**Meini Prawf Lle**

<u>Meini Prawf</u>

Ni fyddai 30mya yn briodol ar rannau o ffyrdd lle gallai fod galw mawr am gyfleoedd cerdded, olwyno a beicio, fel:

a. o fewn taith gerdded o 100m i unrhyw leoliad addysgol (e.e. meithrinfeydd, ysgol gynradd ysgol uwchradd, addysg bellach neu addysg uwch)

b. o fewn taith gerdded o 100m i unrhyw gyfleuster cymunedol

c. o fewn taith gerdded o 100m i unrhyw gyfleuster meddygol, e.e. ysbytai, meddygfeydd, ac ati

d. lle mae nifer yr eiddo preswyl a / neu fanwerthu sy'n wynebu ffordd yn union yn fwy na 20 eiddo fesul km.

Dadansoddiad

Er bod y rhan hon yn cael ei defnyddio ar gyfer cerdded, a beicio a theithio ar olwynion, fe arferai weithredu gyda therfyn 30mya heb unrhyw bryderon, gan ddangos ei bod wedi gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar y cyflymder yma.

Nid oes yna 20 neu fwy o eiddo sy'n wynebu'r ffordd yn union, nid oes unrhyw rai. Nid oes yna gyfleusterau addysgol na meddygol o fewn 100 metr a fyddai'n golygu bod angen terfyn cyflymder is. Mae digon o ddarpariaeth troedffordd yno hefyd. Felly, yn seiliedig ar y ffactorau hyn, mae terfyn cyflymder o 30mya yn briodol ar gyfer y rhan hon o'r ffordd.

Ar ben hynny, fe arferai'r ffordd yma weithredu gyda therfyn 30mya heb unrhyw bryderon na chofnod o ddamweiniau yn y cyfnod o 3 blynedd cyn cyflwyno'r erfyn cyflymder diofyn 20mya gan ddangos ei bod wedi gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar y cyflymder yna. O ystyried y ffactorau hyn, byddai ailgyflwyno terfyn cyflymder 30mya yn helpu i gynnal cludiant effeithiol wrth barhau i sicrhau diogelwch y defnyddwyr.

Meini Prawf

O ran meini prawf 'lle', gellid defnyddio terfynau 30mya ar y canlynol:

a. prif ffyrdd neu ffyrdd strategol y tu allan i ganol dinasoedd / trefi / pentrefi neu brif strydoedd

b. ffyrdd y tu allan i ardaloedd dwysedd uchel ac i ffwrdd oddi wrth leoedd eraill sy'n denu teithiau aml gan gerddwyr a / neu feicwyr.

c. ffyrdd gyda dwysedd tai isel iawn a / neu nifer bach iawn o dai at ei gilydd (llai nag 20 eiddo fesul km)

d. ffyrdd sydd â safleoedd preswyl a manwerthu'n unig ar un ochr ac nad oes angen croesi'r ffordd i gyrraedd gwasanaethau na chyfleusterau (neu os oes croesfannau diogel ar gael neu'n cael eu darparu yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol).

Dadansoddiad

Mae'r rhannau o ffordd a nodwyd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer terfyn cyflymder 30mya. Nid oes yna 20 neu fwy o eiddo sy'n wynebu'r ffordd yn union, nid oes unrhyw rai. Mae'r terfyn cyflymder uwch yn briodol o ystyried swyddogaeth y ffordd a'i effaith ar lif traffig. Yn ychwanegol, mae'r meini prawf yn nodi y gellir defnyddio terfynau 30mya ar brif ffyrdd y tu allan i ardaloedd dwyster uchel neu leoliadau sydd â llawer o gerddwyr a beicwyr.

Ar ben hynny, fe arferai'r ffordd yma weithredu gyda therfyn 30mya heb unrhyw bryderon na chofnod o ddamweiniau yn y cyfnod o 3 blynedd cyn cyflwyno'r erfyn cyflymder diofyn 20mya gan ddangos ei bod wedi gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar y cyflymder yna. O ystyried y ffactorau hyn, byddai ailgyflwyno terfyn cyflymder 30mya yn helpu i gynnal cludiant effeithiol wrth barhau i sicrhau diogelwch y defnyddwyr.

**Symud**

Meini Prawf

O ran meini prawf 'symud', gellid defnyddio terfynau 30mya ar y canlynol:

a. ffyrdd strategol, fel y rhai ar gyfer cludo llwythi neu goridorau bws pwysig, lle ceir tystiolaeth bod amseroedd teithiau wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r terfyn cyflymder gael ei newid i 20mya

b. is-ffyrdd mewn ardal ddiwydiannol gyda galw isel am draffig cerddwyr neu feicwyr, neu ardaloedd wedi eu hamgylchynu gan dir agored (heb gynnwys meysydd chwaraeon, parciau, neu feysydd chwarae y mae angen cael mynediad iddynt drwy'r ffordd dan sylw).

Dadansoddiad

Ar y cyfan fe dderbynnir y gall teithio ar gyflymder is gynyddu amseroedd siwrneiau, yn enwedig i ddefnyddwyr ffordd sy'n gwneud sawl taith neu'n dibynnu ar effeithlonrwydd teithio'n gyson. Mae gan y llwybr ddarpariaeth llwybr troed parhaus a digonol.

Ar ben hynny, fe arferai'r ffordd yma weithredu gyda therfyn 30mya heb unrhyw bryderon na chofnod o ddamweiniau yn y cyfnod o 3 blynedd, gan ddangos ei bod wedi gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ar y cyflymder yna. O ystyried y ffactorau hyn, byddai ailgyflwyno terfyn cyflymder 30mya yn helpu i gynnal cludiant effeithiol wrth barhau i sicrhau diogelwch y defnyddwyr.

**Nodweddion ffyrdd**

Meini Prawf

O ran 'nodweddion ffordd', gellir ystyried terfynau o 30mya:

a. lle ceir cyfleusterau wedi'u harwahanu (o led digonol, yn unol â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol) ar hyd y ffordd a chroesfannau diogel i gerddwyr a beicwyr (a/neu y gallai'r rhain fod ar gael, os felly gellid ystyried newidiadau i'r cyflymder unwaith iddynt gael eu cyflwyno). Bydd angen rhoi ystyriaeth ar wahân i raddau ac ansawdd mesurau diogelwch ar hyd (y llwybr/lôn feicio) ac ar draws y ffordd (byddai angen darparu cyfleusterau diogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr sydd yn cydymffurfio â Chanllawiau Deddf Teithio Llesol).

b. lle ceir galw isel (neu dim galw o gwbl o bosibl e.e. lleoedd arfaethedig i ddenu teithiau yn y dyfodol) i gerddwyr a beicwyr groesi'r ffordd (e.e. dim ond ar un ochr lle mae'r datblygiad).

c. lle mae'r ffordd wedi ei dylunio er mwyn sicrhau bod geometreg a nodweddion priffyrdd yn cefnogi cyflymder diogel uwch o 30mya

Dadansoddiad

Mae’r rhannau o ffordd a nodwyd yn bodloni’r meini prawf ar gyfer terfyn cyflymder 30mya yn seiliedig ar nodweddion y ffordd. Mae beicwyr wedi defnyddio’r ffordd yn ddiogel gyda’r gosodiad presennol pan oedd yn ffordd 30mya heb broblem.

Fe arferai’r ffordd yma weithredu gyda therfyn 30mya heb unrhyw bryderon, gan ddangos ei bod wedi gweithredu’n ddiogel ac yn effeithiol ar y cyflymder yna. O ystyried y ffactorau hyn, byddai ailgyflwyno terfyn cyflymder 30mya yn helpu i gynnal cludiant effeithiol wrth barhau i sicrhau diogelwch y defnyddwyr.

Mae’r ffordd uchod wedi cael ei chlustnodi fel un sy’n bodloni’r gofynion (drwy’r broses asesu uchod gan ystyried y canllawiau diwygiedig a dyletswyddau statudol yr Awdurdod) i’w newid yn ôl i derfyn cyflymder o 30mya. Mae’r buddion posibl yn drech na’r gwrth-fuddion posibl o godi’r terfyn cyflymder.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi’u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig dydd Gwener y Gwener 30 Ionawr 2026



Katie Wilby
Cyngor Sir Y Fflint
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
yr Wyddgrug
CH7 6LG.

Dyddiedig 14 Mai 2019

**Cyngor Sir y Fflint**
**(Wepre Lane, Cei Connah)**
**(Terfyn Cyflymder 30mya) Gorchymyn 2019**

**GORCHYMYN**

Stephen O Jones
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

**Cyngor Sir y Fflint**
**(Wepre Lane, Cei Connah)**
**(Terfyn Cyflymder 30mya) Gorchymyn 2019**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i rymoedd dan Adrannau 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob grym arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ni chaiff unrhyw berson yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 30 milltir yr awr ar y darn o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at Atodlen Map K15 ac L15.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongliad y Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

4. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 31 Mai 2019 ac fe'i adnabyddir fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Wepre Lane, Cei Connah) (Cyfyngiad Cyflymder 30mya) 2019.

**ATODLEN**
**CYFYNGIAD CYFLYMDER 30MYA**


**Wepre Lane:** O bwynt 192 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r B5125 at bwynt 115 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Maes Uchaf, Cei Connah. Cyfeiriwch at Atodlen Map K15 ac L15

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR Y FFLINT** )
**at hyn** )
y diwrnod 14 hwn o Mai 2019 ym mhresenoldeb :- )

**Y CADEIRYDD** Marion Bateman.

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**
~~**UWCH GYFREITHIWR / PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**~~

17717




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386, Flintshire County Council, 2018.

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386, Cyngor Sir y Fflint 2018.

N

1:5000 Scale at A3
1:5000 Graddfa ar A3

**The Flintshire County Council**
**(Wepre Lane, Connahs Quay)**
**(30mph Speed Limit) Order 2019**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(Wepre Lane, Connahs Quay**
**(Terfyn Cyflymder 30mya) 2019**

MB
SJ

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NB

Cyngor Sir y Fflint,
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint, CH7 6NB


**Legend / Eglurhad**

- 20 mph/mya
- 30 mph/mya
- 40 mph/mya
- 50 mph/mya
- 60 mph/mya
- 70 mph/mya
- County Boundary / Ffin Sirol

**Map tile**
**K15**

**Sheet Revision Number:**
**Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 1

**Sheet Active from:**
**Dalen yn weithredol o:** 31/05/2019




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386, Flintshire County Council, 2018.

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386, Cyngor Sir y Fflint 2018.

N

1:5000 Scale at A3
1:5000 Graddfa ar A3

**The Flintshire County Council**
**(Wepre Lane, Connahs Quay)**
**(30mph Speed Limit) Order 2019**

**Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint**
**(Wepre Lane, Connahs Quay**
**(Terfyn Cyflymder 30mya) 2019**

MB
SS

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NB

Cyngor Sir y Fflint,
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint, CH7 6NB


**Legend / Eglurhad**

| | |
|---|---|
| 20 mph/mya | 50 mph/mya |
| 30 mph/mya | 60 mph/mya |
| 40 mph/mya | 70 mph/mya |
| County Boundary / Ffin Sirol | |

**Map tile**
**L15**

**Sheet Revision Number:**
**Rhif Adolgiad Y Ddalen:** **1**

**Sheet Active from:**
**Dalen yn weithredol o:** **31/05/2019**



© Crown copyright and database rights, 2026. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2026. OS 100023386.

## Legend / Eglurhad

- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL


**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS, RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) (30MPH SPEED LIMIT) (AMENDMENT NO. 26) ORDER 202X.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL, FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 26) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X.**

**Sheet K15 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 2

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** XX/XX/202X




© Crown copyright and database rights, 2026. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2026. OS 100023386.


## Legend / Eglurhad

- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council


**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS, RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) (30MPH SPEED LIMIT) (AMENDMENT NO. 26) ORDER 202X.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL, FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) (DIWYGIAD RHIF 26) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X.**

**Sheet L15 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 2

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** XX/XX/202X




© Crown copyright and database rights, 2023. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2023. OS 100023386.

## Legend / Eglurhad

- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL


**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2023.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2023.**

**Sheet K15 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 1

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** 19/09/2023




## Legend / Eglurhad


- 20 mph by Order / 20 mya drwy Orchymyn
- Restricted Road (20 mph) / Ffordd Gyfyngedig (20 mya)
- 30 mph / mya
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2023.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2023.**

| | |
|---|---|
| **Sheet L15 Dalen** | |
| **Sheet Revision Number: / Rhif Adolygiad Y Ddalen:** | **1** |
| **Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** | **19/09/2023** |




# KEY

Terfyn Cyflymder 30mya Arfaethedig

Proposed 30mph Speed limit

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation). Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
StreetScene
Alltami Depot, Alltami, Mold, CH7 6LG
Depo Alltami, Alltami, Yr Wyddgrug, CH7 6LG

Project:

## Proposed 30 Speed Limit
## Terfyn Cyflymder 30mya Arfaethedig

## Wepre Lane

## Sheet 1 of 1

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contact Name: Nick Williams | Telephone: 01352 704642 | | |
| Drawn by: Nick Williams | Fax No: 01352 70 | | |
| Checked by: Lee Shone | Date: Oct 2025 | Sheet 1 of 1 | |
| Scales at A1: 1: NTS | Drawing No: HT/25/Wepre Lane/201 | Phase/Rev: P1 | |

AutoCAD File Ref: H:\TRO's Speed\TRO's 2025\30mph Non A and B roads\30mph Speed limits Non.dwg Nov 06, 2025 - 10:27am